CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR *GOD YMARFER GWEITHREDU'N AGORED* YR ASB

Sylwch mai **crynodeb** yw'r ddogfen hon ac ni fwriadwyd iddi fod yn drwyadl.

Atebion gan sefydliadau Lloegr / y DU gyfan

SYLW	SEFYDLIADAU	YMATEB ARFAETHEDIG
Yn gyffredinol, credir y dylid datgan parch ar gyfer cyfrinachedd masnachol yn gryfach, o dan ddarpariaethau Para 2.7 gan y bydd hyn, fel arall, yn gwrthdaro'n uniongyrchol â lefel y cydweithrediad a roddir gan gwmnïau bwyd yn y gadwyn fwyd a budd-ddeiliaid eraill.	**Novartis UK Ltd** **Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr** **Ffederasiwn Bwyd a Diod** **Comisiwn Cig a Da Byw** **Ffederasiwn Cig Prydain**	*Mae Adran 7 y Ddeddf Safonau Bwyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni ddarparu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn derbyn digon o wybodaeth ac yn cael eu cynghori am faterion y mae'r Asiantaeth yn eu hystyried sy'n effeithio'n sylweddol ar eu gallu i wneud penderfyniadau deallus am fwyd.* *Mae'r drafft o baragraff 2.7 yn adlewyrchu amodau Adran 19 Deddf Safonau Bwyd 1999, sy'n gofyn i'r Asiantaeth ystyried a phenderfynu a yw datgelu gwybodaeth er lles y cyhoedd yn bwysicach nag ystyriaethau eraill ai peidio.*

Pryder y bydd yna oedi o ran darparu'r wybodaeth (fel ym Mhara 2.4) Hefyd, dylid rhoi cyfarwyddyd eglur ar amserlenni darparu gwybodaeth i'w hadolygu gan bobl eraill yn y maes.	**Cymdeithas y Defnyddwyr** **Cymdeithas Cyfanwerthu Cydweithredol** **Cymdeithas Awduron Gwyddonol Prydain** **Cyngor Cenedlaethol y Defnyddwyr**	*Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ymchwil mor fuan â phosib, ond mae'r broses adolygu gan bobl eraill yn y maes yn darparu dull pwysig iawn o wirio ansawdd ymchwil. Mewn achosion brys, efallai y bydd rhaid i ni wneud penderfyniadau neu roi cyngor cyn i bobl eraill yn y maes adolygu'r canfyddiadau'n ffurfiol, ac yn yr achos hwnnw byddwn yn egluro'r rhesymau dros ein penderfyniadau neu ein cyngor.*
Ystyrir ei bod hi'n bwysig i Bara 2.4 ddatgan yn eglur na wnaiff yr Asiantaeth FYTH beidio rhoi caniatâd i gyhoeddi neu geisio perswadio ymchwilwyr i addasu geiriad neu ddehongliad canlyniadau.	**Sefydliad Gwyddoniaeth a Thechnoleg Bwyd**	*Y brif ystyriaeth yma yw na fydd gwybodaeth sy'n anghyflawn ac o bosib yn gamarweiniol yn cael ei rhyddhau fel arfer.*

Teimlir bod eithriadau Para 2.7 yngl n â rhyddhau gwybodaeth yn y bôn yn dibynnu ar ddyfarniadau 'ni'. Mae swyddogaeth Bwrdd yr Asiantaeth a'r Cyrff Ymgynghorol yn codi cwestiynau yngl n â'u sgil i asesu cyngor gwyddonol yn gywir yn ogystal â'r newid hinsawdd angenrheidiol o MAFF i'r Asiantaeth os yw gweithredu'n agored yn mynd i weithio yn ôl yr hyn a fwriadwyd.	**Cyngor Menywod Cenedlaethol Prydain**	*Rydym yn gwybod y bydd y cyhoedd yn ffurfio eu barn eu hunain yngl n â pha mor dda rydym yn cyflawni'n delfrydau a'n gwerthoedd craidd o weithredu'n agored a bod ar gael i'r cyhoedd. Drwy gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, mae Bwrdd yr Asiantaeth wedi gosod esiampl ar gyfer yr holl sefydliad.* *Mae'r eithriadau a restrwyd ym mharagraff 2.7 yn adlewyrchu'r gofyniad statudol, o dan Adran 19 Deddf Safonau Bwyd 1999, i'r Asiantaeth ystyried a phenderfynu a yw datgelu gwybodaeth er lles y cyhoedd yn bwysicach nag ystyriaethau eraill ai peidio.* *Mae'r Ddeddf Safonau Bwyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Iechyd "ystyried y dymuniad i gael amrywiaeth o sgiliau a phrofiad…yn cynnwys profiad mewn materion sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd neu ddiddordebau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd wrth benodi pobl i Fwrdd yr Asiantaeth.* *Lle bo'n berthnasol, gellir herio penderfyniadau a wnaed gan yr Asiantaeth ynghylch cyhoeddi gwybodaeth drwy ddulliau allanol megis Comisiynydd Gwybodaeth y dyfodol a benodwyd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Ombwdsman.*

Nid yw'n ymddangos bod Adran 6 sy'n ymwneud â gweithdrefnau monitro yn cwmpasu llwybrau 'mewnol' i atal diystyru llythyrau awgrymiadau gan y cyhoedd / aelodau lleyg a dylid cydnabod pob llythyr o'r fath yn gyfatebol.	**Cyngor Menywod Cenedlaethol Prydain**	*Byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod pob llythyr yn derbyn cydnabyddiaeth ac ateb. Rydym hefyd wedi sefydlu gweithdrefn ffurfiol i sicrhau gweithdrefnau cwyno ffurfiol i unrhyw un sydd â chwyn (gweler paragraff 6.2).*
Mae'n ymddangos fod Para 2.2 yn gwrthdaro gyda darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n caniatáu celu'r cyngor sy'n sail i benderfyniadau gweinidogion. Gellir ystyried ei fod yn mynd ymhellach na chylch gwaith y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth hyd yn oed. A ellir cyfiawnhau hyn?	**Cymdeithas Awduron Gwyddonol Prydain** **Cymdeithas Gwarchod Cnydau**	*Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi'r pwerau i ni gyhoeddi gwybodaeth a chyngor, yn cynnwys cyngor i weinidogion.*
Cyfyngu ar wybodaeth o dan Bara 2.7. Dylai eithriadau fod yn destun atebolrwydd allanol. Pa ddull sy'n delio â hyn? A yw'n fater ar gyfer yr Ombwdsman?	**Cymdeithas Awduron Gwyddonol Prydain**	*Darperir atebolrwydd allanol drwy ddulliau megis adolygiad barnwrol, yr Ombwdsman ac yn y dyfodol, y Comisiynydd Gwybodaeth fel a benodir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.*
Mynegwyd pryder ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol yn ariannol a'r cymorth fyddai ar gael pe bai'r Asiantaeth yn cyhoeddi cyngor o dan gylch gwaith Gweithredu'n Agored, a fyddai'n niwedio cynnyrch / busnes a fyddai'n profi i fod yn anghywir neu'n wallus yn ddiweddarach.	**Cymdeithas Gwarchod Cnydau** **Ffederasiwn Cig Prydain**	*Bydd yr Asiantaeth, fel adrannau eraill y llywodraeth, yn ystyried rhinweddau pob achos o'r fath yn ofalus, ac ni all felly ymgymryd nag ymrwymo'n gyffredinol i atebolrwydd ariannol.*

Ddim yn glir ym Mhara 2.1 sut fydd yr Asiantaeth yn penderfynu pa wybodaeth / cyngor i'w gyhoeddi a pha wybodaeth / cyngor i'w ddarparu ar gais penodol. Beth yw ystyr 'cyhoeddi'n weithredol'?	**Cyngor Cenedlaethol y Defnyddwyr** **Cymdeithas y Defnyddwyr**	*Mae Adran 7 y Ddeddf Safonau Bwyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni ddarparu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn derbyn digon o wybodaeth ac yn cael eu cynghori am faterion y mae'r Asiantaeth yn eu hystyried sy'n effeithio'n sylweddol ar eu gallu i wneud penderfyniadau deallus am fwyd.* *Bydd 'cyhoeddi'n weithredol' yn cynnwys rhoi gwybodaeth ar wefan yr Asiantaeth a chyhoeddi nodiadau gwybodaeth neu ddatganiadau i'r wasg, yn ogystal â chyhoeddiadau printiedig. Bydd penderfyniadau yngl n â sut i ddarparu'r wybodaeth yn dibynnu ar y galw tebygol, costau cymharol ac yn y blaen.*
Mewn perthynas â Para 2.3 Datblygu ein syniadau, dylid ymgynghori â budd-ddeiliaid o'r cam 'tudalen wag o bapur' ar adegau priodol a dylid egluro trefniadau ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd.	**LACOTS** **Cyngor Cenedlaethol y Defnyddwyr** **Cymdeithas y Defnyddwyr**	*Mae ein profiad yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi dangos gwerth ymgynghori â budd-ddeiliaid yn gynnar, gan fod hyn yn arwain at well penderfyniadau a chyngor mwy cadarn. Eto, rydym yn disgwyl beirniadaeth ar ein perfformiad.*
Hoffem gael eglurhad cliriach ar ystyr 'cyngor sylweddol' Para 2.3(b).	**Cyngor Cenedlaethol y Defnyddwyr** **Cymdeithas y Defnyddwyr**	*Eglurwyd hyn yn llawnach ym mhapur 8 Mawrth 2001 y Bwrdd (Cyf: FSA/01/02/04) 'Cyhoeddi Gwybodaeth a Chyngor i'r Cyhoedd a Gweinidogion'. Gellir cael y wybodaeth hon ar ein gwefan.*

Ystyriwyd y dylid rhoi eglurhad ar eithriadau Para 2.7 mewn perthynas â lles y cyhoedd a rhesymau cyfrinachedd. Mae angen diffinio hyn yn glir. Mae eithriadau'n ymddangos yn rhy gyffredinol. Efallai fod yna achosion o groesddweud gyda'r Dull Rhagofalus fel a fynegwyd yn y ddogfen Risg yn enwedig mewn perthynas â pheidio rhyddhau gwybodaeth anghyflawn gan mai anaml iawn, os o gwbl, mae ymchwil gwyddonol ar argyfyngau bwyd yn gyflawn.	**Cymdeithas y Defnyddwyr** **Ysgol Fusnes Manceinion**	*Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gofyn i ni ddefnyddio prawf lles y cyhoedd ym mhob achos yn ungiol, felly ni allwn roi diffiniad cyffredinol.* *Mae'r mater o ryddhau gwybodaeth anghyflawn neu gamarweiniol bosib yn un sy'n dibynnu ar farn yn y pen draw. Pan fyddwn angen gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth anghyflawn byddwn yn egluro'r hyn a wyddom a'r hyn na wyddom, a'r hyn rydym yn ei wneud i leihau'r ansicrwydd.*
Hoffem weld eglurhad o swyddogaethau aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol mewn perthynas â deunydd 'cyfrinachol' fel yn Para 3.4. Nid ydym am i effeithiolrwydd aelodau'r Pwyllgor gael ei gyfyngu gan waharddiad cyffredinol ar drafod papurau cyfarfod gyda chydweithwyr ac ymgynghorwyr. Dylai'r Asiantaeth nodi meini prawf clir yngl n â phryd i gynnal Pwyllgorau Ymgynghorol (o dan Para 3.4) yn gyhoeddus, mewn perthynas â'r "cyfarfodydd agored achlysurol'" a grybwyllwyd. Fel arall, gallai hyn fod yn gwrthdaro â chylch gwaith gweithredu'n agored. Dylai agendâu, papurau a chofnodion pob cyfarfod gael eu gwneud yn gyhoeddus, waeth a yw'r cyfarfod yn un agored / caeëdig ai peidio. Dylid gallu herio Pwyllgorau Ymgynghorol hefyd.	**Cyngor Cenedlaethol y Defnyddwyr** **Cymdeithas y Defnyddwyr** **Cymdeithas Gwarchod Cnydau**	*Rydym yn annog ein Pwyllgorau Ymgynghorol i weithio mor agored â phosib. Maent yn gwneud hyn, er enghraifft drwy ddarparu papurau, cofnodion ac adroddiadau cyfarfodydd i'r cyhoedd, drwy gynnal cyfarfodydd agored, sefydlu gwefannau a chyhoeddi cylchlythyron.* *Nid ydym yn credu y byddai'n iawn gofyn i'n pwyllgorau ymgynghorol gwyddonol annibynnol ddilyn rheolau manwl a bennwyd gan yr Asiantaeth. Byddwn, fodd bynnag, yn edrych ar y materion hyn eto yn ein hadolygiad o'r Pwyllgorau Ymgynghorol a'u swyddogaethau y bwriedir ei ddechrau yn ddiweddarach eleni.*



Efallai y gellid fod wedi rhoi mwy o fanylion am sut fydd y cod yn cael ei weithredu drwy weithdrefnau mewnol i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n gynt.	**Ysgol Fusnes Manceinion**	*Rydym yn datblygu amrywiaeth eang o ddulliau i roi'r egwyddorion hyn ar waith, o fforymau trafod agored i weithdai ar faterion technegol gyda budd-ddeiliaid.*
Nid yw'r gwadiad a ddefnyddiwyd ym Mhara 5.2 yn gorwedd yn gyfforddus gyda theimlad cyffredinol agored y ddogfen ac os yw'n hollol angenrheidiol, efallai y dylid ystyried ei aileirio mewn dull mwy addfwyn, sy'n gyfeillgar i'r budd-ddeiliaid.	**Ysgol Fusnes Manceinion**	*Credwn ei bod hi'n well bod yn uniongyrchol a gonest am y gwadiad hwn.*
Dylid ystyried yr effaith ar ddiwydiant / busnes / cynnyrch yn ofalus iawn cyn rhyddhau gwybodaeth. Awgrymir rhoi digon o rybudd neu ymgynghori â'r sefydliad yr effeithir arno i gynnal trafodaeth ac i baratoi ar gyfer rhyddhau gwybodaeth i'r cyhoedd, a allai effeithio'n andwyol ar gynhyrchion / busnesau o'r fath.	**Cymdeithas Gwarchod Cnydau**	*Mae gofyn i ni ystyried costau a manteision tebygol y penderfyniadau a ystyrir ac ymgynghori lle bo'n bosib (Adran 22 a 23 Deddf Safonau Bwyd 1999). Ein nod yw ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol lle bo'n bosib. Ond efallai na fyddwn yn gallu gwneud hyn bob amser, er enghraifft os oes angen cymryd camau brys i ddiogelu iechyd pobl.*

Gwnaed nifer o awgrymiadau ynghylch cyhoeddi'r ddogfen i'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill gan ddefnyddio gwahanol ffurfiau ar gyfer y gynulleidfa ehangaf bosib: • Gwefannau'r Asiantaeth a gwefannau cysylltiedig • Aml-gyfryngau a CD ROM mewn ysgolion, grwpiau defnyddwyr a sefydliadau contractwyr • Cyfieithu i leithoedd Lleiafrifol fel y bo'n briodol • Papurau newydd dyddiol drwy hysbysebu neu adroddiadau newyddion • Swyddfeydd Awdurdodau Lleol • Taflenni cyhoeddus mewn archfarchnadoedd, llyfrgelloedd ac ystafelloedd aros ysbytai • Cyfarfodydd cyhoeddus i addysgu'r cyhoedd a rhoi'r ymwybyddiaeth / sylw / proffil gorau posib i'r Asiantaeth a'r ddogfen Hefyd, angen llinellau cyfathrebu clir ar gyfer mewnbwn gwybodaeth y cyhoedd mewn perthynas â pheryglon bwyd.	**Novartis UK Ltd** **Cymdeithas Gwarchod Cnydau** **LACOTS** **Ffederasiwn Bwyd a Diod** **Ysgol Fusnes Manceinion** **Cymdeithas Cyfanwerthu Cydweithredol** **Sefydliad Ymchwil Bwyd** **Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain** **Cymdeithas Awduron Gwyddonol Prydain** **Ffederasiwn Cig Prydain** **Cymdeithas y Defnyddwyr** **Cyngor Menywod Cenedlaethol Prydain**	*Rydym yn ddiolchgar am yr awgrymiadau hyn y byddwn yn eu hystyried wrth i ni ddatblygu ein strategaethau cyfathrebu. Fel corff cyhoeddus, bydd angen i ni, wrth gwrs, gydbwyso costau a manteision a gwneud penderfyniadau anodd yn aml ar flaenoriaethau ynghylch ein gwariant.*

Atebion o'r Alban

SYLW	SEFYDLIADAU	YMATEB ARFAETHEDIG
Mae'r arfer presennol o gynnal sesiynau Bwrdd caeëdig cyn cyfarfodydd Bwrdd yn ymddangos fel pe bai'n gwrth-ddweud darpariaethau Para 3.3. ar weithredu'n agored. Byddai'r system 'llywodraethu'n agored' presennol o restru materion cyfrinachol ar yr agenda sydd wedyn yn destun 'cofnodion' yn ddull mwy eglur.	**Canolfan Heintiad ac Iechyd Amgylchedd Yr Alban**	*Rydym wedi ystyried hyn, ond daethom i'r casgliad y byddai cyhoeddi agendâu a nodiadau "talfyredig" o'r math hwn yn dargyfeirio adnoddau ac yn ychwanegu dim at weithredu'n agored. Fel pob sefydliad, mae angen rhywfaint o breifatrwydd arnom i ddatblygu ein trefniadau rheoli mewnol, i benderfynu ein sefyllfa drafod ariannol (yn ein hachos ni, mewn perthynas â'r cylch gwario cyhoeddus, a delio â materion rheoli mewnol eraill.*
O ran Para 2.5, mae angen i'r Asiantaeth sefydlu dull sy'n galluogi adolygiad annibynnol o unrhyw achos o wrthod cais i ryddhau gwybodaeth.	**Bwrdd Iechyd Grampian**	*Darperir atebolrwydd allanol drwy ddulliau megis adolygiad barnwrol, yr Ombwdsman ac yn y dyfodol, y Comisiynydd Gwybodaeth fel a benodir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.*
Angen eglurhad llawnach o ran rhesymau am beidio rhyddhau cyngor / gwybodaeth. Nid yw'r eithriadau wedi'u diffinio'n dda o dan Bara 2.7.	**Cymdeithas Cyfanwerthu Yr Alban**	*Mae'r Ddeddf Safonau Bwyd yn gofyn i ni ddefnyddio prawf lles y cyhoedd ym mhob achos yn ungiol, felly ni allwn roi esboniadau mwy penodol yma.*

Dylid nodi isafswm cyfnod ar gyfer ymarferion ymgynghori o dan Para 3.2	**Cymdeithas Cyfanwerthu Yr Alban**	*I'r graddau y gallwn, byddwn yn dilyn Cyfarwyddyd Swyddfa'r Cabinet o leiafswm o 12 wythnos. Pan na allwn wneud hyn, byddwn yn egluro pam – er enghraifft, oherwydd y terfynau amser a osodwyd gan brosesau'r UE neu brosesau rhyngwladol eraill neu oherwydd angen trechol budd-ddeiliaid allweddol am benderfyniad cynnar (e.e. ar newidiadau i wasanaethau).*
Ar adegau, ni ddatgelir gwybodaeth i'r cyhoedd gan y byddai'n rhwystro'r gwaith o ymchwilio i argfywng / digwyddiad a'i reoli. Mae angen bod yn hyblyg i sicrhau nad yw datganiadau datgelu gwybodaeth yn amharu ar drefniadau diogelu iechyd y cyhoedd Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol.	**Bwrdd Iechyd Forth Valley**	*Mae'r mater hwn wedi'i gwmpasu gan y gofyniad cyffredinol (yn y Ddeddf Safonau Bwyd) i'r Asiantaeth ystyried a phenderfynu a fyddai datgelu gwybodaeth o fudd i'r cyhoedd ai peidio.*
Mae'n ymddangos ei bod hi'n bwysig i'r Asiantaeth gael caniatâd yr awdur cyn rhyddhau gwybodaeth. Fel arall, gallai gyfyngu neu leihau'r cyngor a roddir gan gyfranwyr sy'n ceisio gwarchod eu cyfrinachedd, gan effeithio yn y pen draw ar gywirdeb cyngor / dadansoddiad yr Asiantaeth.	**Bwrdd Iechyd Forth Valley**	*Mae Adran 7 y Ddeddf Safonau Bwyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni ddarparu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn derbyn digon o wybodaeth ac yn cael eu cynghori am faterion y mae'r Asiantaeth yn eu hystyried sy'n effeithio'n sylweddol ar eu gallu i wneud penderfyniadau deallus am fwyd. Pan fo angen ystyried cyfrinachedd byddwn yn defnyddio "prawf lles y cyhoedd" fel yr eglurwyd uchod.*

Gwnaed nifer o awgrymiadau ynghylch cyhoeddi'r ddogfen i'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill gan ddefnyddio gwahanol ffurfiau ar gyfer y gynulleidfa ehangaf bosib: • Gwefannau'r Asiantaeth a gwefannau eraill • Cyhoeddi mewn gwahanol ieithoedd • Print mawr • Tâp a fideo • Copïau caled mewn Llyfrgelloedd Cyhoeddus • Hysbysebion gwybodaeth gyhoeddus mewn papurau newydd	**Cyngor Dinas Glasgow** **Kevin Hutchens** **Pwyllgor Cydlynu Bwyd Yr Alban**	*Rydym wedi cynnwys negeseuon allweddol y ddogfen hon ym mhennod agoriadol ein cynllun strategol. Rydym yn amau a yw manylion y Cod hwn o ddiddordeb i gymaint o bobl, ond byddwn yn cyhoeddi'r ddogfen ar ein gwefan.*

Atebion o Gymru

SYLW	SEFYDLIADAU	YMATEB ARFAETHEDIG
Pryderus iawn y gallai rhai sectorau o'r diwydiant bwyd ddymuno peidio datgelu gwybodaeth am resymau masnachol / cyfrinachedd, mewn perthynas â chyhoeddiadau'r Asiantaeth, yn absenoldeb unrhyw ofyniad gan yr asiantaeth i wneud hynny cyn ymgynghori. Ni chrybwyllir cyfrinachedd masnachol ymysg yr eithriadau a restir o dan Para 2.7	**Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru** **Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru**	*Mae gofyn i ni ystyried costau a manteision tebygol y penderfyniadau a ystyrir ac ymgynghori lle bo'n bosib (Adran 22 a 23 Deddf Safonau Bwyd 1999). Ein nod yw ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol lle bo'n bosib. Ond efallai na fyddwn yn gallu gwneud hyn bob amser, er enghraifft os oes angen cymryd camau brys i ddiogelu iechyd pobl.*
Gwnaed nifer o awgrymiadau ynghylch cyhoeddi'r ddogfen i'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill: • Gwefannau'r Asiantaeth a gwefannau eraill • Dosbarthu taflen drwy gwmnïau bwyd ac awdurdodau lleol • Dylai holl gyhoeddiadau / gwefan / cyfarfodydd cyhoeddus a chyfryngau eraill a ddefnyddir fod yn ddwyieithog yng Nghymru	**Cyngor Sir Powys** **Undeb Amaethwyr Cymru**	*Rydym wedi cynnwys negeseuon allweddol y ddogfen hon ym mhennod agoriadol ein cynllun strategol. Rydym yn amau a yw manylion y Cod hwn o ddiddordeb i gymaint o bobl, ond byddwn yn cyhoeddi'r ddogfen ar ein gwefan.*

Atebion o Ogledd Iwerddon

SYLW	SEFYDLIADAU	YMATEB ARFAETHEDIG
Dylid rhoi rhesymau am beidio rhoi gwybodaeth ar achlysuron o'r fath.	**Cyngor Cyffredinol y Defnyddwyr**	*Mae Para 2.5 yn nodi ein bwriad i wneud hynny.*
Annsicr ynghylch sut mae'r Asiantaeth yn bwriadu monitro ei pherfformiad ar weithredu'n agored (fel yn Adran 6). Argymell y dylai'r monitro fod yn ragweithiol ar sail sampl parhaus o geisiadau gwybodaeth a dderbynnir gan fudd-ddeiliaid.	**Cyngor Cyffredinol y Defnyddwyr**	*Rydym yn cynnal arolygon rheolaidd ar safbwyntiau defnyddwyr yngl n â'r Asiantaeth, ac yn cyhoeddi'r canlyniadau. Rydym hefyd am gael adborth gan bawb sy'n mynychu ein cyfarfodydd Bwrdd agored. Rydym yn monitro cwynion a byddwn yn cyhoeddi canlyniadau'r broses fonitro hon.*
Gwnaed nifer o awgrymiadau ynghylch y ffordd orau o gyhoeddi'r Dull o ddelio â Pheryglon, megis: • Ar wefan yr Asiantaeth • Copïau caled o restr gynnwys y wefan a ble gellir cael gwybodaeth (os na ellir cael mynediad i'r rhyngrwyd) • Tâp sain a phrint mawr ar gyfer pobl â nam ar eu golwg • Ffôn testun • Llyfrgelloedd • Sefydliadau bwyd • Canolfannau Cynghori Defnyddwyr • Cyfryngau Darlledu megis teledu, radio a'r wasg • Cyfieithu i ieithoedd lleiafriol • Cyfarfodydd rhanbarthol i roi cyhoeddusrwydd i'r ddogfen drwy gyfrwng darlledu a phrint	**Cymdeithas Allforwyr Cig Gogledd Iwerddon** **Asiantaeth Hybu Iechyd** **Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd a Gorllewin Belfast** **Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y De**	*Rydym wedi cynnwys negeseuon allweddol y ddogfen hon ym mhennod agoriadol ein cynllun strategol. Rydym yn amau a yw manylion y Cod hwn o ddiddordeb i gymaint o bobl, ond byddwn yn cyhoeddi'r ddogfen ar ein gwefan.*